# Prosiect Maen Hir
# Llyfryn Llywio Dogfennau

## CANLLAW I'N DOGFENNAU YMGYNGHORI

**HYDREF 2024**

# Trosolwg

**Mae Lightsource bp yn cyflwyno cynlluniau i adeiladu prosiect solar a storio ynni newydd ar dir yng ngogledd ddwyrain Ynys Môn.**

Mae gan Brosiect Maen Hir y potensial i gynhyrchu 360 megawat (MW) o drydan - digon o ynni glân i roi pŵer i tua 140,000 o gartrefi ac osgoi mwy na 71,000 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.

Rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad o 02 Hydref i 15 Dachwedd 2024 fel y gallwn rannu ein cynlluniau gyda chi ac i roi cyfle i chi ddweud eich barn wrthym. Mae'r cam ymgynghori ffurfiol hwn yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008.

Rydyn ni wedi paratoi set o ddogfennau a deunyddiau i roi gwybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ymgynghori arno, i'ch helpu i ffurfio barn ac i roi eich adborth a'ch sylwadau i ni.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o'r dogfennau sydd ar gael, crynodeb o'r wybodaeth sydd ynddyn nhw a ble gallwch ddod o hyd iddyn nhw.

# Llenyddiaeth ymgynghori cymunedol

- **Llyfryn Gwybodaeth am y Prosiect** – yn rhoi gwybodaeth am y broses gynllunio, trosolwg o'r Prosiect a beth rydyn ni'n ymgynghori arno, yn esbonio sut i gymryd rhan a beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

- **Ffurflen Adborth** – wedi'i strwythuro fel y gallwch roi eich sylwadau ar ein cynlluniau. Fel arall, gallwch roi adborth ar-lein yn **lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg** mewn e-bost neu drwy ysgrifennu atom **(gweler tudalen 5 am fanylion cyswllt)**.

- **Cwestiynau Cyffredin** – yn manylu ar y cwestiynau cyffredin am y Prosiect a'u hatebion cyfatebol.

**Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.**

# Dogfennau technegol

**Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)**

Rydyn ni wedi cynnal asesiadau amgylcheddol helaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cynlluniau. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, mae canfyddiadau'r asesiadau a gwblhawyd hyd yma wedi'u nodi yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR).

Mae'r PEIR yn cyflwyno effeithiau rhagarweiniol ein Prosiect ar yr amgylchedd, gan nodi ein Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) hyd yma, gyda gwaith datblygu ac asesu cynllunio pellach i ddod.

Mae'n asesu sut gallai'r Prosiect effeithio ar elfennau fel bywyd gwyllt lleol, ansawdd aer a dŵr, lefelau sŵn a'r gymuned gyfagos, ond nid yw'n asesiad terfynol o'r effeithiau. Bydd canfyddiadau terfynol y broses AEA yn cael eu cyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r Cais.

**Mae'r PEIR yn cynnwys tair cyfrol fel a ganlyn:**

- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cyfrol 1: Prif Adroddiad
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cyfrol 2: Ffigurau
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cyfrol 3: Atodiadau

- **Crynodeb Annhechnegol (NTS) o'r PEIR** – trosolwg o'r wybodaeth a'r canfyddiadau a nodir yn y PIER ac fe'i bwriedir ar gyfer cynulleidfa gyffredinol.

**Bydd y PEIR ar gael yn Saesneg, tra bydd y Crynodeb Annhechnegol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.**

Mae'r PEIR yn wahanol i'r Datganiad Amgylcheddol, a fydd yn cyd-fynd â'n cais terfynol am ganiatâd datblygu.

Mae'r PEIR yn nodi effeithiau rhagarweiniol ein hasesiadau amgylcheddol fel y maent ar gael ar y pwynt ymgynghori. Y Datganiad Amgylcheddol yw'r adroddiad manwl terfynol y byddwn yn ei lunio ar ôl y PEIR. Bydd yn ystyried adborth o'r broses ymgynghori hon, newidiadau cynllunio, canlyniadau gwaith arolygu pellach, ac yn amlinellu'r effeithiau amgylcheddol terfynol a'r mesurau lliniaru. Mae'r PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol yn ofynion deddfwriaethol.

# Ble i ddod o hyd i'r dogfennau hyn

**Gwefan y prosiect** – mae'r holl ddogfennau hyn ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho o'r adran 'Dogfennau' ar we-dudalen y Prosiect: **lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg**

**Digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb** – bydd copïau print o'r dogfennau hyn ar gael i'w gweld yn y digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb rydyn ni'n eu cynnal **(ceir manylion ar we-dudalen ein prosiect)**

**Lleoliadau archwilio dogfennau** – mae copïau print o'r dogfennau hyn ar gael i'w gweld mewn 'lleoliadau archwilio dogfennau' sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng nghyffiniau'r Prosiect, a nodir eu manylion **ar dudalen 6**

# Cysylltwch â ni

Gallwch gysylltu â thîm y Prosiect i ofyn am gopïau print neu ddigidol o lenyddiaeth ymgynghori cymunedol, neu gopïau digidol o'r dogfennau a'r cynlluniau technegol.

**Rhadffôn:** 0808 175 6663 (Ar agor Llun-Gwener, 09.00-17.00)

**E-bost:** maenhir@lightsourcebp.com

**Rhadbost:** FREEPOST MAEN HIR PROJECT (dim angen stamp)

**Tudalen ar y we:** lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg

# Lleoliadau archwilio dogfennau

| Cyfeiriad | Oriau agor | Rhif ffôn |
|---|---|---|
| **Canolfan Busnes Môn**<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Parc Busnes Bryn Cefni<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7XA | Llun i Gwener 09.30-16.30 | **Ff:** (01248) 750 057 |
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys<br>Amlwch<br>Ynys Môn<br>LL68 9EA | Mawrth 09.30-12.30<br>14.00-17.00<br>Mercher 09.30-12.30<br>Iau 14.00-19.00<br>Gwener 09.30-12.30<br>Sadwrn 09.30-12.30 | **Ff:** (01407) 830 145 |
| **Llyfrgell Benllech**<br>Ffordd Bangor<br>Benllech<br>Tyn y Gongl<br>Ynys Môn<br>LL74 8TF | Llun 14.00-17.00<br>Mawrth 13.00-17.00<br>Mercher 10.00-13.00<br>14.00-17.00<br>Gwener 14.00-18.00<br>Sadwrn 10.00-13.00 | **Ff:** (01248) 852 348 |
| **Llyfrgell Caergybi**<br>Neuadd y Farchnad<br>Stryd Stanley<br>Caergybi<br>Ynys Môn<br>LL65 1HH | Llun 09.30-18.00<br>Mawrth 09.30-18.00<br>Mercher 09.30-13.00<br>Iau 09.30-18.00<br>Gwener 09.30-18.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 | **Ff:** (01407) 762 917 |
| **Llyfrgell Llangefni**<br>Lôn y Felin<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL777RT | Llun 09.00-19.00<br>Mawrth 09.00-17.00<br>Mercher 09.00-13.00<br>Iau 09.00-18.00<br>Gwener 09.00-19.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 | **Ff:** (01248) 752 095 |

*Sylwch y gallai'r oriau agor newid. Cadarnhewch yr amserau agor gyda'r lleoliad os ydych yn cynllunio ymweliad.